

DOGFENNAU HANESYDDOL CLWB MYNYDDA CYMRU

Casgliad o ddogfennau yn cynnwys llythyrau gan y diweddar Ioan Bowen Rees at Iolo ap Gwynn, yn dilyn llythyr gan Iolo at Ioan yn awgrymu'r syniad o ffurfio 'Clwb Mynydda Cymru', mis Mawrth 1979.

1. Llythyr atebiad IBR
2. Llythyr diweddarach yn y trefnu gan IBR
3. Archeb lleoliad y cyfarfod i'r Steddfod.

Beherda 600478

TAL-SARN,

LLANLLECHU,

Bangor, Gwynedd

30 Ebrill 1979

Annwyl Iolo,

Drwg gennyf na chefais gyfle cyn hyn i ateb eich llythyr caredig. Tueddaf i gytuno y dylid o leiaf wyntyllu'r syniad o sefydlu Clwb Mynydda Cymreig yn y Steddfod. Ond y peth pwysig yw sicrhau cefnogaeth, nid ambell ddilettante dros ei hanner cant oed fel fi, ond nifer go lew o ddringwyr abl ac ifanc sy'n barod i weithio â'u holl egni dros y fenter.

Cefais air gyda Huw Roberts y Parc Cenedlaethol am y peth echdoe ac y mae ef yn mynd i godi'r pwnc gyda Dei Tomos: buasai'r pump sydd newydd ddychwelyd o Batagonia yn gnewyllyn da ac efallai y gellid defnyddio darlith gan un ohonynt fel rhywbeth i ddenu pobl i gyfarfod yn y Steddfod. Roedd Huw yn bwriadu trefnu ~~cyfarfod~~ cyfarfod yn Nolgellau y gaeaf hwn gydag Eric Jones a chwithau yn darlithio ond methodd a chael dyddiad gan Eric er ei fod wedi cytuno o ran egwyddor (i roi'r ddarlith ac i gefnogi Clwb Cymreig) yn fy mhresenoldeb i Mis Awst diwethaf, ar ol helpu i agor arddangosfa'r Cyngor Sir ar hanes mynydda.

Y pwnc anodd yw penderfynu ar natur y sefydliad Cymreig - ai ambarel ddwyieithog i Gymru gyfan ynteu Clwb i Gymry Cymraeg. Tueddaf i ffafrio cyfaddwad, sef Clwb Cymraeg ei iaith gyntaf, gyda chroeso i ddysgwyr, a gyda changhennau lleol lle bynnag fo'r galw, a'r amcanion a ganlyn:

1. Hyrwyddo pob agwedd ar fynydda ymhlith y Cymry, gartref a thramor a rhoi cyfle i Gymry gyfarfod a'i gilydd i fynydda ac i drafod mynydda yn ~~Gymraeg~~ Gymraeg.
2. Meithrin cysylltiadau agos gyda ffermwyr mynydd Cymru.
3. Cydweithio gyda chlybiau mynydda eraill Cymru (yn yr ystyr o glybiau ar gyfer dringwyr sy'n byw yng Nghymru yn bennaf) gyda'r bwriad o sefydlu Cyngor Mynydda Cymreig gyda statws cydwladol.
4. Cydweithredu gyda Chyngor Mynydda Prydain, Cyngor Mynydda'r Alban a chyrff mynydda gwledydd eraill y byd.

Cwestiwn arall y dylid ei drafod yw i ba raddau y mae'n ddymunol ac yn bosibl i'r Clwb fod tan nawdd yr Urdd er mwyn hwylustod gweinyddol ac er mwyn lluedaenu'r efengyl, yn enwedig ar y cychwyn.

Os oes ddigon o frwdfrydedd dros gynnal cyfarfod ar faes y Steddfod, rwy'n berffaith barod i fynd yn gyfrifol am y trefniadau yn y pen yma, er bod gennyf ormod ar fy mhlât i fedru cyfrannu rhyw lawer wedyn. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Roberts ac un arall at Dei Tomos ac edrychaf ymlaen at glywed eich adwaith. Un arall sy'n ymddiddori mwyfwy mewn dringo yw Ieuan Owen, cyn-gapten tîm mabolgampau Cymru, sy'n gweithio yn ein swyddfa ni.

Cofiw gorau,

Iolo

Tol-sam,
 Llanllechid
 15 Mehefin '79

Amwythlon,

Disodd ym 1979 am eiddoedd 1125/79 : te wroff fy ngoran fann
 ddaw cais : bencath y siar ym 1125/79 a sefydlu at yr ynylon.

Echidoc dymchwelid y 'Stollford' wrthyf fod angen
 penderfyniad wrth hollis os well cyfeirnod at y cyfarfod gyflyn â
 Chlawr Myrddin i gydlynwyr yng Rhosden. Weli ymgyrchwr â Huw
 Roberts, a chyngwrwr o Eric Jones twyllu ef, mentrain galambau
 felly os awgustaf ydychi os ffurfiad a awtomat ym ol. Y sgrin
 ym bod Eric Jones ym awmwr os ei hanner fel ddyddwr o'r ynylon,
 am hys hanner awr, ym atel y gwelid o'r awmwr os ydychi
 hollolach. A fawrth chi ym hys i gadeirio os i awmwr
 y ddatbwlch ?

Rhowch danc i mi os ydychi hys hys hys ym Eryri
 naif os os gallyf ddf danc i fellydant am sgrin —
 felly hys hys ~~hys~~ Huw Roberts a'i ddiwybyr.

Arbeidiau fy mod weli gwaned, ych i mwr.

M. Jones,



Fy seisiwn gael cyhoeddiwyd ym 4 Gyfwr os os
 y rasio hys hys hys ym cyfarfod.



The Royal National Eisteddfod of Wales

Eisteddfod Genedlaethol
Frenhinol Cymru
Caernarfon a'r Cylch
Awst 6-11 1979

John Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod
Caernarfon, LL55 1NN
Tel: 5215

At: Y Trefnydd Cynorthwyol,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Twtl,
Caernarfon. LL55 1NN.

14 Mehefin, 1979.

Pabell y Cymdeithasau

Yn dilyn ein cais am gael cynnal cyfarfod yn y Babell uchod anfonaf
atoch i dderbyn y cynnig isod.

Yn gywir iawn,

Ioan Bowen Rees

.....

Y Gymdeithas

Clwb Mynyddu Cymru (Arfaethedig)

Cyfarfod

Anerchiad gan Eric Jones i ~~Clwb~~ O Ffyn Sain Marchog i Everest Heb
Trafodwr ar sefydlu clwb mynyddu Cymraeg ei iain. (Crese i bwrdd)
Oesigen.

Dyddiad

Dydd Iau, Awst 9, 1979

Amser dechrau

3.00 p.m.

Amser gorffen 4.00 p.m.

Rhaid clirio'r Babell erbyn yr amser a nodir